**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/2328/23

Elin Jones AS
Llywydd

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Medi 2023

Annwyl Elin, Huw a Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r Bil Ynni (y Bil) a gyflwynwyd gerbron Tŷ’r Arglwyddi, Senedd y DU ar 6 Gorffennaf 2022. Fel y gwyddoch, gosodais Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil fel y'i cyflwynwyd ar 29 Mehefin 2023.

Ar 25 Gorffennaf, rhoddais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (sLCM) gerbron ar gymalau Pecyn Gwella Amgylcheddol Gwynt Alltraeth (OWEIP) y Bil. Cyflwynwyd y cymalau hynny fel gwelliannau i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Ionawr 2023, gyda gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno i’r Bil gan Lywodraeth y DU ar 7 Mehefin 2023.

**Memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol eraill**

Rwyf bellach yn ysgrifennu atoch wrth osod ail sLCM i ymdrin â’r gwelliannau eraill a wnaed i'r Bil ers ei gyflwyno. Mae’n ymdrin â’r Bil fel ar ddiwedd Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac fel y’i cyhoeddwyd ar 11 Gorffennaf 2023. Mae'r gwelliannau sy’n ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru yn ymwneud â Rhannau 1, 2, ac 11.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu nifer o'r gwelliannau i'r Bil gan eu bod yn rhoi esboniadau defnyddiol a manylion ychwanegol ar sut y bydd y mesurau cyntaf a gyflwynwyd yn y Bil yn gweithredu. Fodd bynnag, fel gyda'r Bil fel y'i cyflwynwyd, mewn nifer o feysydd, nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn parchu cymhwysedd Senedd Cymru'n ddigonol. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod Senedd Cymru'n gwrthod rhoi ei chydsyniad i gymalau 9, 73, 106-126, 127 a 259. Yma rydym am ei wneud yn ofyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad cyn y gall rheoliadau newydd ddod i rym yn hytrach na phroses ymgynghori fel sydd yn nrafft cyfredol y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i drafod y Bil gyda Llywodraeth y DU, ond hyd yma nid wyf wedi cael cynnig gwelliannau derbyniol i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol neu'r sLCM sydd wedi'u gosod hyd yma. Rwy'n ategu barn Llywodraeth Cymru ein bod yn cefnogi bwriad y polisi a nodir yn y Bil ac rwyf hefyd yn cytuno bod angen i lawer o'r rheoliadau a gynigir weithredu'n effeithiol ar lefel y DU gyfan. Rwyf dal o'r farn nad oes rheswm pam na all Llywodraeth y DU weithio gyda ni i reoleiddio ar draws ffiniau mewn ffordd sy'n osgoi gwahaniaethu o ran rheoleiddio trwy broses sy'n gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

Fel gyda'r LCMs eraill, rwy'n gwerthfawrogi ein bod y tu allan i'r terfyn amser arferol o ddwy wythnos ar gyfer gosod yr LCM atodol hwn. Bu hynny'n rhannol oherwydd y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Bil, ond hefyd oherwydd cymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried.

**<u>Dadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol</u>**

Ar hyn o bryd mae Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a Thrydydd Darlleniad y Bil wedi'i drefnu ar gyfer 5 Medi. Disgwylir i Dŷ'r Arglwyddi ddechrau ystyried y gwelliannau ar 12 Medi.

Rwy'n anhygoel o bryderus na fydd yr amserlen ar gyfer y Bil hwn yn rhoi digon o amser i ddatrys pryderon ar lefel rynglywodraethol, ac na fydd cyfle ystyrlon gan Senedd Cymru i ystyried ei barn am gydsynio. Rwyf wedi gofyn i Weinidogion y DU gymryd camau ar unwaith i ohirio Cyfnodau terfynol Tŷ'r Cyffredin er mwyn cael mwy o amser i drafod, ac er mwyn i Senedd Cymru gael ystyried y Bil hwn ar adeg ystyrlon.

Yn ôl yr amserlen bresennol, rwyf yn y sefyllfa anffodus o orfod gofyn i Senedd Cymru drafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil hwn pan ddaw'r cyfle cyntaf, sef 12 Medi 2023. Rwy'n gwerthfawrogi y bydd hyn yn golygu na chaiff Pwyllgorau perthnasol Senedd Cymru yr amser i graffu ar yr sLCMs gafodd eu gosod yn ystod y toriad, ac mae'n debygol na fyddant wedi cael amser chwaith i adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 29 Mehefin 2023. Ond bydd cynnal y ddadl ar y dyddiad hwn yn gyfle i Senedd Cymru gyfleu ei barn yn glir wrth Lywodraeth y DU a Senedd y DU yn fuan.

O bryder mwy fyth yw'r posibilrwydd y bydd y Bil hwn yn cael ei wthio drwy Senedd y DU er na fydd wedi cael cydsyniad Senedd Cymru. Y confensiwn cyfansoddiadol yw na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Nid oes rheswm rhesymol o gwbl i awgrymu nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn 'normal'. Felly, rwyf wedi gofyn am sicrwydd diamwys, os na fydd Senedd Cymru'n rhoi ei chydsyniad i'r Bil hwn, y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i barchu Confensiwn Sewel fel y dywedodd y byddai, a pheidio â deddfu mewn perthynas â Chymru.

**Rheol Sefydlog 29 a goblygiadau o ran adrodd**

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes eisoes wedi pennu 15 Medi fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar yr LCM gwreiddiol. Os bydd naill ai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad neu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith mewn sefyllfa i gyhoeddi adroddiad cyn y ddadl ar 12 Medi, byddaf yn ymateb yn unol â hynny yn nadl Senedd Cymru ac yn ysgrifenedig yn ôl y gofyn.

Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, yr anhawster sylweddol y mae hyn yn debygol o'i achosi a'r realiti y gallai hyn fod yn anymarferol. Felly, byddaf hefyd yn cymryd camau i gyflwyno cynnig i atal Rheol Sefydlog 29.8 er mwyn gallu cynnal y ddadl ar 12 Medi, a chan atal hefyd Reolau Sefydlog 11.16 a 12.20(i).

Rwy'n parchu ac yn gwerthfawrogi rôl Pwyllgorau Senedd Cymru o fewn y broses cydsyniad deddfwriaethol, ac yn gresynu'r sefyllfa hon yn fawr. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, credaf oherwydd trywydd y Bil hwn, ei bod yn hanfodol bod Senedd Cymru'n cael mynegi ei barn ar fyrder.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS a'r Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change